Y PASG 7

ACTAU 1:15-17, 21-26; SALM 1;
1 IOAN 5:9-13; IOAN 17:6-19

● **Gweddi agoriadol**

Wrth i'r dydd hwn ein croesawu
gyda'i her a'i lawenydd,
cofiwn dy fod ti gyda ni
bob cam o'r daith.
Rhown yr amser hwn i ti,
amser myfyrio,
amser cymdeithasu,
amser addoli,
amser i rannu bendithion
dy bresenoldeb gyda ni nawr.

● **Moliant**

Gwyn eu byd
y rhai sy'n ymhyfrydu ynot,
sy'n synhwyro
sibrwd tyner dy alwad.
Gwyn eu byd
y rhai all osod o'r neilltu
synau'r byd
a chanolbwyntio yn unig ar dy air.

Tebyg i flodyn hardd
y daw persawr dymunol ohono
i lifo mewn awel haf,
mae eu gweddigarwch
yn offrwm peraidd,
y bydd dy Ysbryd
yn tynnu ohono ffrwythlondeb
a gogoniant i'th enw.

● **Cyffes**
Dduw maddeugar,
dygwn atat ein
hanghyflawnder,
a gofyn i ti
ein gwneud yn gyfan.

Dywedwn y geiriau
a chanwn yr emynau,
ond ambell ddiwrnod
cawn ein hangori'n gadarn
yn y deyrnas hon,
nid dy un di,
yn baglu
i ganfod ffydd
i ddal ati.

Dduw maddeugar,
dygwn atat ein
hanghyfanrwydd,
a gofyn i ti
ein gwneud yn gyfan.

● Diolch

Pobl y Pasg ydym ni,
yn byw
dy fywyd atgyfodedig,
dirgelwch ffydd
na all y byd hwn
ei amgyffred.
Derbyn ein diolch diffuant.

Pobl wedi'u dewis ydym ni,
yn derbyn
dy addewid a'th air
yn ysgrifenedig yn ein calon,
gobaith
bywyd tragwyddol.
Derbyn ein diolch diffuant.

Pobl weddigar ydym,
dros y byd
y cawn ein hunain ynddo,
dros gymdogion a dieithriaid,
pawb sydd
mewn angen o'th ras.
Derbyn ein diolch diffuant.